
| *Rhif*: ***25*** | *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* | **Penrhyn Marloes ac Ynys Sgomer** |
|---|---|---|




**ACM25:Penrhyn Marloes ac Ynys Sgomer**



*Edrych at Sgomer (chwith) o fan edrych allan Gwylwyr y Glannau yn Haven Point, gydag Ynys Dewi'n weladwy ar draws Bae Sain Ffraid i'r gogledd (dde)*



*Penrhyn Marloes yn edrych tua'r dwyrain*



*Traeth Marloes yn edrych tua'r de-ddwyrain*



*Edrych at Sgomer o'r môr, tua 500m i'r gogledd*

## Disgrifiad Cryno

Mae Penrhyn Marloes ac Ynys Sgomer a'r ynysoedd yn rhan o ddaeareg folcanig gyda chraig-ffurfiadau agored dramatig a chlogwyni uchel, sy'n cyferbynnu gyda thirwedd llwyfandir agored a noeth. Mae Sgomer yn gytref bwysig i adar ac yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer gwylio adar. Mae Traeth Marloes yn draeth tywodlyd hir gyda chlogwyni uchel yn ei gau i mewn. Mae ardal y môr yn Warchodfa Natur Forol ac mae yna nifer o beryglon o gychod.

## Nodweddion Allweddol

- Craig ynys folcanig Sgomer a'r ynysigau cysylltiedig, a phenrhyn cromennog Marloes gyda chlogwyni danheddog a glannau creigiog, staciau, bwâu ac ogofau a childraethau bach.
- Traeth hir yn wynebu'r de ym Marloes.
- Mae'r môr yn gynhyrfus iawn ac mae'n agored iawn gyda cherrynt terfol llanwol a chreigiau niferus a pheryglon eraill.
- Môr bioamrywiol iawn fel gwarchodfa natur forol ac ACA gydag adar y môr, morfilod a morloi.
- Arfordir ac ynys fioamrywiol iawn fel Gwarchodfa Natur Forol, AGA a SoDdGA gyda sawl math o adar fel y pâl a llystyfiant lled-naturiol y rhedyn a chlychau'r gog.
- Tirwedd hanesyddol ar Sgomer gyda llawer o olion o'r cyfnod cynhanesyddol.
- Tua'r tir, mae'r gorchudd tir yn âr gan fwyaf gyda phatrwm caeau unionlin ac anheddiad ynysig, noeth Marloes ond mae'n cynnwys ardal o bwll dyrchafedig sy'n cael ei reoli at ddibenion gwarchod natur.
- Mae'r defnydd hamdden/môr yn cynnwys hwylio, teithiau cwch i Sgomer, deifio gyda nifer o longddrylliadau a bywyd gwyllt, pysgota o'r môr oddi ar y creigiau ac o gychod, caiacio a physgota gyda photiau tua'r tir.
- Ar y tir/arfordir yr atyniadau yw Traeth Marloes, Llwybr yr Arfordir a'r Parc Ceirw.
- Arfordir agored a gwyllt gyda golygfeydd godidog, eang a phanoramig o sawl lleoliad.

## Nodweddion Ffisegol

Ffurfiwyd Ynys Sgomer (75m UDO), The Neck (59m UDO) ac Ynys Ganol (45m UDO) o lafâu, creigiau mewnwthiol a thywodfaen gwydn o Grŵp Folcanig Sgomer Silwraidd, sy'n taro dwyrain-gorllewin, gan barhau tua'r dwyrain ar draws Penrhyn Marloes sydd ychydig yn gromennog ac yn codi i 72m UDO (a thua'r gorllewin at Gwales a'r Smalls- ACM27). Mae'r creigiau hyn, a thywodfaen llwyd sy'n dipio'n serth, yn dominyddu'r clogwyni arfordirol deheuol garw gyda staciau, bwâu ac ogofau. Mae'r creigiau'n rhai tanddwr ac yn cael eu dadorchuddio gan y llanw o amgylch ynysoedd. Glannau creigiog yw'r ardaloedd rhynglanwol gan fwyaf, gyda glannau tywodlyd mewn baeau, yn enwedig ar Draeth Marloes. Mae erydiad y gwynt a'r tonnau'n gweithredu trwy sgrafelliad, athreuliad a symudiadau hydrolig, gyda phrosesau dyddodol mewn baeau yn cludo dyddodion trwy dyniant, neidiant a daliant. Yn gyffredinol, caiff cludiant gwaddodion ei alinio fel torddwr gyda drifft y glannau'n gyfyngedig.

Caiff y craigwely tanddwr mewn moroedd bas (<30m) tuag at y gogledd a'r de ei orchuddio gan dywod graeanog. O amgylch yr ynysoedd, mae llawr y môr ar oleddf serth i ffwrdd oddi wrth

glogwyni uchel, danheddus iawn. Ar draws Bae Marloes mae llawr bas iawn y môr (<10m) ar oleddf ysgafn (<1°). Mae'r moroedd yn agored i bwysau uchel y tonnau o'r de-orllewin a cherhyntau llanwol. Mae cerhyntau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd a'r de trwy Swnt Jac ac i'r gorllewin o Sgomer. Mae'r llif llanwol yn <6 milltir fôr yn Swnt Jac, ble mae yna ddyfroedd garw a cherhyntau terfol llanwol. I'r gorllewin o Sgomer, mae'r llif llanwol <4 milltir fôr, ac mae'r dyfroedd yn arw i'r gorllewin a'r gogledd (Cerrig Garland) o'r ynys. Amrediad y llanw yn Hafan Martin yw 6.9m.

Mae Ynys Sgomer a'r moroedd o amgylch yn Warchodfa Natur Forol gyda bioamrywiaeth gyfoethog a sawl rhywogaeth ar eu terfynau mwyaf gogleddol neu ddeheuol. Mae'r bywyd gwyllt yn doreithiog gan gynnwys y pâl, carfilod, pâl Manaw, adar y drycin, morloi, dolffiniaid a llamhidyddion. Mae Sgomer yn warchodfa natur forol, yn AGA, SoDdGA, ardal sy'n bwysig ar gyfer adar ac mae'r dyfroedd o fewn ACA Sir Benfro Forol, a gwneir llawer o ymchwil ar yr ynys ac o'i chwmpas. Mae ardal fewnol Ynys Sgomer wedi ei gorchuddio ag ardaloedd helaeth o redyn gyda chlychau'r gog a'r blodyn neidr yn ildio'u lle i glustog Fair a'r gludlys arfor ar y godiroedd.

Y dyfroedd o amgylch Ynys Sgomer a Phenrhyn Marloes yw unig Barth Cadwraeth Morol Cymru. Mae'r cynefinoedd pwysig yn cynnwys cymunedau o sbyngau a blodeufilod ar greigiau sydd dan lefel y llanw, 'cwrel' Ross a gwelyau morwellt.

Tir âr yw'r penrhyn gan fwyaf, a hynny mewn patrwm cae unionlin. Rheolir ardal o bwll gwlypdir dyrchafedig ar gyfer adar y dŵr. Mae'r Parc Ceirw yn ardal o weundir lled-naturiol.

**Dylanwad diwylliannol**

Mae Ynys Sgomer yn ynys ar y morffyrdd gorllewinol y mae ei henw Norsaidd yn egluro ei chysylltiadau gyda ffurflywodraeth y Llychlynwyr yn Scandinafia, Prydain ac Iwerddon. Ychydig oddi ar arfordir deheuol Sir Benfro, mae'n dangos gweithgarwch pobl mewn microcosm caeedig, gydag olion creiriol helaeth aneddiadau o gynhanes, systemau cae a gweithgarwch ffermio diweddar wedi eu cadw'n dda - roedd rhywun yn byw yn y ffermdy hyd nes 1948. Defnyddiwyd yr ynys ar gyfer porfelaeth mewn canrifoedd diweddar, ac mae'n bosib bod y ramp ger bwa naturiol y Lantern yn adlewyrchu hyn. Mae yna ddwy odyn galch fawr o'r 19$^{eg}$ ganrif ar yr ynys. Mae Ynys Sgomer ymhlith y tirweddau archeolegol gorau ym Mhrydain.

Mae Henebion Cofrestredig yn cynnwys:

- PE180 (anheddiad cylch cytiau): cymuned: Marloes a Sain Ffraid (yn rhannol o fewn ACM26)
- PE181 (grwpiau cytiau, carneddau a chastell ar y clogwyn): cymuned: Marloes a Sain Ffraid
- PE194 (caer bentir): cymuned: Marloes a Sain Ffraid
- PE323 (caer bentir): cymuned: Marloes a Sain Ffraid
- PE566 (maes awyr): cymuned: Marloes a Sain Ffraid (yn rhannol o fewn ACM26 ac ACM31)

Mae yna nifer o longddrylliadau wedi eu clystyru'n benodol o amgylch Swnt Jac sy'n arwydd o'r potensial i natur y dyfroedd fod yn fradwrus ac maent yn berygl ynddynt eu hunain. Gwelwyd rhai, fel y Lonsdale a'r Molesey gan ddeifwyr.

Mae'r ardal hon yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Sgomer.

Mae'r enw Norsaidd 'Sgomer', fel yr enwau Saesneg Ramsey a Skokholm yn awgrymu cysylltiadau Norsaidd - mae'n cyfeirio at siâp holltog yr ynys. Yn ôl Gerallt Gymro, codwyd 'Carreg Harold', o'r cyfnod Cynhanes, gan yr Iarll Harold i goffau ei fuddugoliaeth dros y Cymry ym 1063. Daw enw'r Parc Ceirw ar ddiwedd y penrhyn o ymgais (a fethodd) i sefydlu parc ceirw ar droad yr 20fed ganrif.

Daw cychod mordeithio modur a hwyliau, ynghyd â chychod dydd modur, o Ddyfrffordd Aberdaugleddau i ymweld ag Ynys Sgomer ac i angori yma. Mae'n ffurfio rhan o lwybr mordeithio arfordirol sy'n cael defnydd helaeth ac sy'n cysylltu'r Aber tua'r gogledd ar draws Bae Sain Ffraid ac i'r gorllewin tuag at Iwerddon. Mae mordeithio trwy'r sianel rhwng Sgomer a'r Parc Ceirw, Swntiau Jac, yn arbennig o beryglus. Mae deifio'n boblogaidd yn yr ardal hon oherwydd mae yna sawl llongddrylliad ac mae'r dyfroedd yn gyfoeth o fywyd gwyllt a ffawna eraill. Mae pysgota môr oddi ar y creigiau ar bentir Marloes ac o gychod yn boblogaidd yn ogystal â dal mewn potiau tua'r lan. Mae caiaciau a chychod dydd yn lansio o Hafan Martin sydd hefyd yn

cynnig angorfeydd siglo ar gyfer cychod pysgota tua'r lan, cychod ymchwilio a chychod preifat. Mae angorfa dros dro yn South Haven yn dda mewn gwyntoedd gogleddol.

Mae Ynys Sgomer yn arbennig o boblogaidd ymhlith twristiaid sy'n dal y cwch o'r llwyfan lanio yn Hafan Martin allan at yr ynys. Mae'r cwch yn rhedeg o 10yb ac yn dechrau dod ag ymwelwyr yn ôl o 3yp - cyfanswm y nifer o ymwelwyr a ganiateir ar yr ynys ar unrhyw un adeg yw 250 am resymau cadwraeth. Cyfyngir ar bysgota yn yr ardal gan y Warchodfa Natur Forol ond gallai gynnwys rhwydau wedi eu gosod a dal cimwch a chrancod mewn potiau.

Mae isffordd yn rhedeg ar hyd asgwrn cefn penrhyn Marloes trwy anheddiad ynysig Marloes mor bell â maes parcio ger Hafan Martin ble mae'r teithiau cwch yn gadael am Sgomer. Ar y penrhyn, yn edrych allan dros Sgomer, mae'r Parc Ceirw sy'n boblogaidd ar gyfer cerdded a gwylio bywyd gwyllt yn yr un modd â Llwybr Afordir Sir Benfro. Mae yna fan gwylio Gwylwyr y Glannau yma. Maen nhw'n dringo ar glogwyni'r Parc Ceirw, yn enwedig ar Drwyn Wooltack. Mae Marloes yn draeth da gyda gweithgareddau cysylltiedig ar y traeth yn arbennig o boblogaidd pan ddaw'r gwynt o'r gogledd. Defnyddir y traeth hefyd ar gyfer hela ffosilau. Mae Pwll Marloes yn lle gwych i wylio adar ac yn denu nifer fawr o adar dŵr dros y gaeaf.

Mae yna sawl maes pebyll a charafannau yn yr ardal ond mae'r rhain yn dueddol o osgoi carafannau parhaol. Mae yna hen faes awyr segur i'r de o Farloes.

Mae'r Parc Ceirw a pheth tir ar y penrhyn yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yn cael ei reoli ganddi, ac mae Sgomer yn cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

Gellir gweld cychod fferi sy'n pasio am Iwerddon o Ddoc Penfro a thanceri olew a chychod eraill sy'n cludo llwythi ar gyfer y terfynfeydd a'r orsaf bŵer yn Aberdaugleddau o bell.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Mae cymeriad yr ynys a diwedd y penrhyn â chymeriad gwyllt a noeth iawn ac maen nhw'n teimlo'n fawr ac yn agored. Mae'r clogwyni a'r glannau creigiog, yr ynysigau a'r creigiau yn ddramatig, danheddog ac onglog. Yn y môr, dominyddir y cymeriad gan yr egrau llanwol a'r dŵr cynhyrfus a'r glannau creigiog a'r clogwyni gerllaw gan adar môr cysylltiedig. Mae yna olygfeydd eang i'r môr a'r ynysoedd o'r penrhyn. Mae yna arogleuon cryf o'r môr ac mae'n agored i'r gwynt yn y rhan fwyaf o lefydd, gyda sŵn y tonnau'n taro mewn moroedd garw. Mae Traeth Marloes yn boblogaidd ac yn gallu teimlo'n gysgodol. Mae'n gallu bod yn llai heddychlon yn yr haf. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae yna ymdeimlad naturiol, pellennig a llonydd iawn ar hyd yr arfordir a'r ynysoedd.

Mae cefnfro'r penrhyn yn llyfn ac yn noeth gydag ychydig yn unig o goed a chloddiau neu waliau isel. Mae anheddiad Marloes yn teimlo'n ynysig ac agored.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf gwylio bywyd gwyllt, cerdded a thraethau, at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr arfordir heb ei ddifetha, gwarchodfeydd natur morol a chenedlaethol, pwysigrwydd o ran gwarchod natur a daeareg, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'r hanes amrywiol ac ymdeimlad cryf o ofod a dihangfa.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad isel cyffredinol i'r gogledd i Fae Albion. Yng nghynllun rheoli'r traethlin mae'n dweud 'gwneud dim byd'.

Efallai Gwarchodfa Natur Forol Sgomer a allai gynyddu parthau na ellir mynd ag unrhyw beth oddi yno, ac fe allai hyn gyfyngu ar gychod a gweithgareddau eraill mewn rhai ardaloedd.

Pwysau ymwelwyr ar atyniadau'r penrhyn e.e. Traeth Marloes a mynediad, Hafan Martin a meysydd parcio cysylltiedig.

Hela ffosilau ar Draeth Marloes.

Cywasgiad ac erydiad llwybr yr arfordir mewn mannau.

Fe fyddai unrhyw bwysau o ddatblygiad ym Marloes yn debygol o fod yn amlwg mewn tirwedd, agored gydag ychydig o goed yn unig.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr Arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | ■ | | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | ■ | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | ■ | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | ■ | ■ | | | ■ | |
| Archeoleg Gyfoethog | | ■ | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | ■ | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | ■ | | | | | |
| Mynediad i'r Parc | ■ | | | | | ■ | |
| Lle i Anadlu | | ■ | | | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Ynysoedd a morlin gwledig agored sy'n bellennig a heb eu difetha ac sy'n bwysig o ran gwarchod natur a daeareg.

Sensitifrwydd i lygredd golau ychwanegol o gyfleusterau olew a nwy dyfrffordd Aberdaugleddau.

Cymeriad hanesyddol yr ardal.

Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.

Gweithgarwch ymwelwyr a meysydd parcio.

Presenoldeb defnydd hamdden wedi ei sefydlu.

Cychod mawr yn pasio ar y ffordd i Aberdaugleddau neu wedi angori ym Mae Sain Ffraid.